

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



### Gwersi Beiblaidd o Lyfr Exodus

Yn y rhifyn hwn, mae “ch”, “dd”, “ff”, “ng”, “ll”, “ph”, “rh” ac “th” yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau a rhoddir nhw mewn dau flwch ar wahân




**DARLLENWCH**  
Exodus 1: 6-14 & 22  
2: 1-10



**ADNOD**  
**ALLWEDDOL**  
Hebraid 11: 23

## Gwers 1 Moses –Y Baban mewn Cawell



Ar ddiwedd stori Joseff, roedd saith deg aelod o'i deulu, gan gynnwys ei dad Jacob, wedi dod lawr i wlad yr Aifft i ymgartrefu yno. Ymhen amser, cynyddodd eu nifer, a chyn hir roedden nhw wedi tyfu'n hil o bobl ar wahân. Hebraid neu Israeliaid oedd yr enw arnynt. Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dechrau dros 300 mlynedd wedi i'r Israeliaid gyrraedd yr Aifft, ac wedi i frenin newydd, neu Pharo, ddod i'r orsedd.

### C Lliwiwch yr hanner cylch sydd wrth ymyl yr ateb cywir:

Roedd y brenin newydd yn cofio Joseff a'r pethau da a wnaeth dros yr Aifft  yn gwybod am Joseff.

Gorfododd yr Israeliaid i adeiladu dwy ddinas  tair dinas.

Bu'n rhaid i'r Israeliaid hefyd weithio'n galed yn y ffatrioedd  yn y caeau.

Nid yn unig roedd Pharo'n dymuno gwneud bywyd mor anodd â phosibl i'r Israeliaid, ond roedd e hefyd eisiau eu rhwystro rhag cynyddu mewn nifer.

### C Esboniwch ei ddeddf greulon YN EICH GEIRIAU EICH HUN. (Adnod 22)

Ymddangosai fel pe bai popeth wedi troi yn erbyn yr Israeliaid, ond doedd Duw ddim wedi anghofio amdany'n nhw. .

### C Wrth bwy roedd Duw eisoes wedi dweud y byddai'r pethau hyn yn digwydd? (edrychwch ar Genesis 15: 12-14)

-----

Roedd Duw wedi addo hefyd y bydden nhw'n gadael yr Aiff! Hanes "ymadawiad" yr Israeliaid yw testun llyfr Exodus. Mae'n adrodd hanes gwardigaeth a drefnwyd gan Dduw ar gyfer Ei bobl. Yn gyntaf, roedd rhaid i Dduw ddewis arweinydd ar gyfer y digwyddiad mawr hwn.

**Ystyr EXODUS yw MYNEDIAD ALLAN neu YMADAWIAD**

**C Llanwch y Croesair â manylion am y baban a anwyd yn Exodus pennod 2.**


I Lawr

- 1.Enw arall am y fasedd a wnaeth ei fam .....
- 2.Cafodd ei adael ar lan yr .....
- 3.Roedden nhw wedi cuddio'r baban am ..... mis cyn hyn.

Ar draws

- 1.Gadawyd ..... y baban i'w wyllo gerllaw.
- 4.Roedd ei rieni yn perthyn i dŷ neu lwyth .....

(llythrennau unigol yw ch, dd, ff, ng a.y.y.b.)



5

**C Gosodwch y brawddegau isod yn y drefn gywir drwy roi rhif 1-6 o'u blaen i esbonio beth ddigwyddodd nesaf.**

- Cynigiodd chwaer y baban ddod o hyd i nyrs i'r bachgen bach.
- Gwelodd merch Pharo'r cawell ac anfonodd ei morwyn i'w nôl.
- Dechreuodd y baban grio ac roedd hi'n teimlo'n flin drosto.
- Roedd merch Pharo yn dod i'r afon i ymdrochi.
- Daethon nhw â mam y baban ato er mwyn iddi fod yn nyrs iddo.
- Agorodd merch Pharo'r cawell a gwelodd y baban.



6

Yn lle bod merch Pharo yn helpu i weithredu deddf ei thad yn erbyn meibion yr Israeliaid, roedd hi mewn gwirionedd yn helpu bwriad Duw drwy arbed y baban hwn! Cafodd dyfu i fyny yn ei gartref ei hun heb unrhyw berygl pellach. Pan oedd y bachgen yn ddigon hen, gadawodd gartref ei rieni.

**Enw:** .....

**Mab:** .....

**Cartref:** .....

3

**C Llanwch y manylion am ei fywyd newydd. (gweler 2:10)**

Hyd yn oed nawr, roedd Duw yn rheoli bywyd y plentyn ac yn ei baratoi ar gyfer ei waith yn y dyfodol. Roedd yr hyn wnaeth rhieni'r bachgen bach hwn yn beth peryglus iawn. Yn yr Adnod Allweddol rydym ni'n darllen mai eu ffydd, neu eu hymddiriedaeth yn Nuw, a'u gwnaeth nhw'n benderfynol i arbed eu plentyn.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol**


1

Mae ffydd, fel hyn, yn plesio Duw. Gallwn ni hefyd ymddiried yn Nuw ym mhob sefyllfa, gan wybod ei fod Ef bob amser yn rheoli popeth.



DARLLENWCH  
Exodus 2: 11-22



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Numeri 32: 23

## Gwers 2 Moses – Ei Gamgymeriad Mawr

Un diwrnod, gofynnodd mam Beca iddi fynd i siopa. Doedd dim hawl ganddi fynd ar gefn beic newydd ei brawd, ond dyma gyfle iddi gael tro arno pan oedd Ben oddi cartref. “Ddaw neb fyth i wybod,” meddyliodd Beca. Roedd hi bron wedi cyrraedd adref pan ddechreuodd yr olwyn flaen siglo'n sydyn, yna trawodd y pafin a syrthiodd Beca oddi arno. Chafodd hi ddim anaf, diolch byth. Cododd y beic, gan ei archwilio'n ofalus i weld a oedd unrhyw ddifrod. Oedd! Roedd breichiau'r olwyn flaen wedi plygu rhyw ychydig. Pan gyrhaeddodd adref, bu wrthi am hydoedd yn ceisio sythu'r breichiau oedd wedi'u difrodi. Roedden nhw bron yn iawn! Roedd hi'n gobeithio na fyddai Ben fyth yn dod i wybod.



### C Gosodwch y llythrennau yn eu trefn gywir

Beth wnaeth Beca o'i le? Buodd hi'n (adunfud) a \_\_\_\_\_ i'w mam.

Beth wnaeth hi yn lle cyfaddef? Ceisiodd (goduid) g \_\_\_\_\_ beth oedd wedi digwydd.

Yn y diwedd, cafodd Beca ei “dal” am iddi wneud beth wnaeth hi.

Yn y wers hon, roedd Moses wedi ymddwyn yn debyg iawn i Beca. Erbyn hyn roedd Moses yn ddyd ac yn dal i fyw ym mhalas Pharo. Un diwrnod, roedd yn gwyllo'r Israeliaid wrth eu gwaith.

### C Defnyddiwch y geiriau isod i lanw'r bylchau er mwyn dweud beth wnaeth Moses:- wyllo Israeliaid Eifftiad tywod Eifftiad

Roedd \_\_\_\_\_ yn curo \_\_\_\_\_.

Edrychodd Moses i weld a oedd rhywun yn ei \_\_\_\_\_ ac yna lladdodd yr \_\_\_\_\_.

### C Tanlinellwch y pechod roedd Moses wedi ei gyflawni.

Dwyn      Digio      Dweud Celwydd      Llofruddio

Drannoeth, gwelodd Moses ddau Israeliaid yn ymladd. Ceisiodd ddarganfod beth oedd yn digwydd.

### C Ysgrifennwch y geiriau sydd i'w gweld yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud wrthym ni fod un o'r Israeliaid yn gwybod beth wnaeth Moses y diwrnod blaenorol.



### C Ym mha adnod mae'r geiriau hyn i'w gweld? Adnod:.....

2

5

1


1

1

Dechreuodd Moses ofni'n arw! Roedd ei ddrygioni wedi dod i'r amlwg!

**C** Pwy arall glywodd am hyn?

Fel Moses, ac fel Beca yn ein stori ar y dechrau, gallwn ninnau hefyd geisio cuddio ein pechod. Gallwn ei guddio oddi wrth eraill, o bosibl, ond allwn ni fyth ei guddio oddi wrth Dduw, sy'n gweld ac yn gwybod popeth. Mae Duw am i ni gyffesu ein pechodau yn onest wrtho Ef, er mwyn i ni dderbyn Ei faddeuant. Sylweddolodd Moses y byddai'n rhaid iddo ffoi o'r Aifft cyn gynted â phosibl.



**C** Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau sy'n dilyn ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y **CHWILAIR**. Maen nhw wedi'u cuddio i fyny, i lawr, yn ôl, ymlaen ac yn groeslinol.

1. Y wlad yr aeth Moses iddi. \_\_\_\_\_
2. Eisteddodd wrth ymyl \_\_\_\_\_
3. Daeth \_\_\_\_\_ o ferched yr offeiriaid yno.
4. Roedd angen dŵr arnyn nhw ar gyfer y \_\_\_\_\_ o ddefaid a geifr.
5. Nes ymlaen, dywedodd y merched wrth eu tad eu bod wedi cyfarfod ag \_\_\_\_\_
6. Enw gwraig Moses. \_\_\_\_\_

Y	O	A	E	L	L	E	M
D	D	I	A	R	P	I	I
E	A	S	E	S	N	F	D
P	N	F	E	A	H	F	I
Y	G	T	I	T	N	T	A
D	T	D	I	H	E	I	N
E	I	A	P	O	R	W	H
W	S	E	F	F	O	R	A

**C** Gan ddefnyddio'r Adnod Allweddol, llanwch y bylchau isod. Dyma wers bwysig i ni o'r Beibl:

Then look up the Key Verse to complete this Bible Text.

O\_d \_s n\_ w\_e\_ch \_yn, b\_dd\_ch yn p\_chu yn \_r\_yn yr Ar\_l\_ydd,  
a chew\_h wy\_od y by\_d e\_ch \_e\_hod yn eic\_ d\_l.



DARLLENWCH  
Exodus 2: 23-25  
3: 1-10



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Exodus 15: 11

### Gwers 3 Moses – Y Berth yn Llogi

Roedd bywyd Moses mor wahanol nawr, o'i gymharu â'r blynyddoedd hynny a dreuliodd ym mhalas Pharo. Roedd ei fywyd bellach yn dawel ac unig. Aeth nifer o flynyddoedd heibio heb fod dim anarferol yn digwydd. Nôl yn yr Aifft, doedd bywyd yr Israeliaid fel caethweision fawr gwell. Oedd Duw wedi anghofio amdany'n nhw? Fyddai Ef yn dal i weithio allan Ei gynllun i ddefnyddio Moses, oedd yn 80 oed erbyn hyn, i arwain Ei bobl allan o'r Aifft?

#### C Gan ddefnyddio adnod 24, llanwch y bylchau gyda'r geiriau sy'n dangos i ni nad oedd Duw wedi anghofio Ei bobl.

\_\_\_\_\_ Duw eu griddfan

\_\_\_\_\_ Duw ei gyfamod (addewid)

2

Yna, un diwrnod, cafodd Moses brofiad anghyffredin iawn.

#### C Edrychwch ar y pedwar llun, A, B, C, D, a gosodwch y llythyren gywir yn y blychau sy'n dilyn.



A



B



C



D

Roedd Moses yn bugeilio'r ... . Daeth at ...  Duw. Yn sydyn, gwelodd ...

c aeth yn nes er mwyn gweld pam nad oedd y berth yn llogi. Galwodd Duw ar Moses o ganol y berth a dywedodd wrtho am beidio â dod yn nes ond am iddo dynnu ei ... .

4

#### C Pam bod y fan lle'r oedd Moses yn sefyll yn llecyn arbennig?

1

Roedd hon yn foment ddwys a rhyfeddol. Roedd Duw, sy'n Dduw mawr a pherffaith ac sydd fel arfer ymhell oddi wrth ddynton, yn siarad yn uniongyrchol â Moses. Drwy dynnu ei sandalau, roedd Moses yn dangos ei fod yn parchu Duw. Roedd yn rhyfeddu ac yn ofni ar yr un pryd! Roedd Duw am i Moses wybod yn union Pwy yw Ef.

#### C Gosodwch y llythrennau yn y drefn gywir:

Ef yw Duw hbAmara \_\_\_\_\_

scaal \_\_\_\_\_

caboj \_\_\_\_\_



3

Yna esboniodd Duw Ei gynllun i achub yr Israeliaid.

**C** Pa adnod sy'n disgrifio'r wlad roedd Duw yn eu harwain iddi?


Adnod:

**C** Pa adnod sy'n disgrifio beth roedd Moses i'w wneud?

Adnod:

2

**C** Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUN beth mae'r adnod uchod yn ei ddweud wrthym ni am y cyfarwyddiadau gafodd Moses gan Dduw.



1

Dysgodd Moses gryn dipyn am Dduw wrth sefyll yn ymyl y berth oedd ar dân.

**C** Rhowch gylch o gwmpas y pethau roedd Moses yn gwybod eu bod nhw'n wir am Dduw.

nerthol anghofus mawr creulon yn clywed a gweld popeth sanctaidd gwan gofalgar


5

Rhaid i ni hefyd gofio fod Duw yn sanctaidd. Mae Ef yn bwysicach na neb arall y byddwn ni'n ei gyfarfod. Mae Duw yn disgwyl bod gyda ni barch arbennig tuag Ato. Ddylen ni fyth gamddefnyddio Ei enw.

**C** Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.


2

Er bod Duw gymaint yn fwy na ni, dyma'r newyddion da – mae Ef wedi trefnu ffordd i ni ddod yn agos ato, er ein bod ni'n bechaduriaid. Drwy gredu fod yr Arglwydd Iesu wedi marw drosom ni, gallwn ni dderbyn maddeuant a chael ein dwyn yn ôl at Dduw.





DARLLENWCH  
Exodus 5: 1-9, 22-23  
6: 1-9



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Hebreaid 10: 31

## Gwers 4 Moses – yn Dod â Neges Duw

Oes rhywun wedi gofyn i chi rywbryd i wneud rhywbeth doeddech chi ddim eisiau ei wneud? Fe wnaethoch chi esgusodion, mae'n siŵr, a hyd yn oed awgrymu rhywun arall i wneud y gwaith, efallai. Dyna'n union wnaeth Moses pan ofynnodd Duw iddo fynd i siarad â Pharo! Yn y diwedd, cytunodd Moses y byddai'n mynd, dim ond bod ei frawd Aaron yn siarad drosto. Doedd ceisio perswadio Pharo i ryddhau'r Israeliaid ddim yn mynd i fod yn dasg hawdd.

### C Ym mha adnod ym mhennod 5 mae Pharo yn gwneud yr esgusodion hyn?



Yn lle gwneud yr hyn a ofynnodd Moses ac Aaron, gwnaeth Pharo fywyd y caethweision Iddewig yn fwy anodd fyth.

### C Llanwch y bylchau er mwyn cwblhau gorchymyn Pharo.

Gadewch iddynt fynd a chasglu ..... iddynt eu hunain. (5:7)

Gofalwch eu bod yn cynhyrchu'r un ..... o briddfeini â chynt. (5:8)

Cafodd yr Israeliaid eu cosbi oherwydd doedden nhw ddim yn gallu gwneud hyn. Dyma nhw'n dechrau rhoi'r bai ar Moses ac Aaron ar unwaith.

### C Sut aeth Moses ati i ddatrys y broblem? Tanlinellwch yr ateb cywir.

Dyweddodd wrth yr Israeliaid am fynd i ffwrdd.    Pwdodd.    Gweddiodd ar yr Arglwydd.

Roedd angen sicrwydd ar Moses fod Duw yn dal wrth y llyw. Atebodd Duw drwy ei atgoffa o'i nerth a thrwy'r nerth hwnnw byddai'n gorfodi Pharo i ryddhau'r bobl. Doedd Duw DDIM wedi anghofio Ei addewidion.

### C Tynnwch linell fydd yn cysylltu dechrau a diwedd pob addewid a wnaeth Duw ym mhennod 6, adnod 6 i 8.

Fe'ch rhyddhaf

a byddaf finnau yn Dduw i chwi.

Fe'ch cymeraf yn bobl i mi

yr addewais ei rhoi i Abraham, Isaac a Jacob.

Fe'ch dygaf i'r wlad

o orthrwm yr Eifftiaid.

2

2

1

3

Roedd Duw hefyd eisiau i Moses a'r Israeliaid sylweddoli PWY yw EF. Mae Ef yn atgoffa Moses bedair gwaith drwy ddweud "MYFI YW'R ARGWLWYDD".

**C Chwiliwch am y pedair adnod ym mhennod 6 lle mae'r geiriau hyn i'w gweld.**

Adnod:  Adnod:  Adnod:  Adnod:

4

Dylai gwybod mai Ef yw'r Arglwydd fod wedi eu helpu nhw i gredu yn nerth ac addewidion Duw.

**C Wrandawodd yr Israeliaid ar beth ddywedodd Moses wrthyn nhw am addewidion Duw? Rhowch linell drwy'r ateb anghywir. (adnod 9)**

1

**DO / NADDO**

Mae Duw eisiau i ni gredu'r addewidion roddodd Ef i ni yn Ei Air, y Beibl. Roedd Duw, nid yn unig am i'w bobl Ei hun ddeall Ei nerth a'i fawredd, ond roedd Ef am i Pharo fod yn dyst i hynny hefyd. Bu'n rhaid i Dduw anfon deg cosb, neu bla, cyn y byddai Pharo'n rhyddhau pobl Dduw. Ceir disgrifiad o'r plâu hyn ym mhenodau 7 i 11.



**C Chwiliwch am y cyfeiriadau hyn ac ysgrifennwch enw'r pla ar y llinell, yna gosodwch bob pla yn y lle cywir ar y grid.**

**Lawr**  
Exodus 10: 21 \_\_\_\_\_

**Ar draws**  
Exodus 7: 20 \_\_\_\_\_

Exodus 8: 6 \_\_\_\_\_

Exodus 8: 24 \_\_\_\_\_

Exodus 9: 11 \_\_\_\_\_

5

Gwrthododd Pharo gynllun Duw ar gyfer Israel ac felly daeth o dan farn neu gosb Duw.

**C Mae'r Adnod Allweddol yn rhybudd i bob un ohonom. Ysgrifennwch yr adnod.**

2

**cyfanswm**

Marciau  
[i'w nodi gan yr athro]

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org). Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120